# Cylchlythyr 22


Cronfa Treftadaeth Heritage Fund


Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government


Pennal 2050


## ADFER DYFI YN DECHRAU

BYDD DISGYBLION o ysgolion lleol yn elwa o linyn addysgol y prosiect hwn. Dyma rai o'r syniadau gwych ar gyfer logo'r prosiect (rhain gan Ysgol Pennal) a byddant yn gymorth i ddylunio logo'r prosiect. Dysgon nhw am y creaduriaid sydd yn y Ddyfi yn ogystal â choed cyffredin sy'n ymylu glannau'r afon a'i llednentydd.







MAE PARTNERIAETH Pennal Partnership, y grŵp cymunedol dan arweiniad ffermwyr, wedi llwyddo i ennill dau grant ar gyfer prosiect newydd yn nhalgylch Dyfi. Ariennir y prosiect gan Raglen Rhwydweithiau Natur a ddarperir gan y Gronfa Dreftadaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

Nod Adfer Dyfi yw cryfhau gwytnwch safleoedd tir a morol gwarchodedig Cymru dros y blynyddoedd nesaf, gan feithrin gallu i gryfhau a gwella darpariaeth natur yn y dyfodol, a chynnwys y gymuned yn hynny. Bydd ymdrechion Partneriaeth Pennal yn gwella cyflwr a chysylltedd rhwng safleoedd ar gyfer rhwydweithiau natur sy'n gynefinoedd hanfodol i'w diogelu er mwyn i rywogaethau ffynnu ac ehangu.

Bydd y prosiect yn helpu Dalgylch Dyfi i addasu i effeithiau newid hinsawdd gyda chamau gweithredu i helpu glanhau ac oeri'r afon a'i llednentydd gyda ffocws penodol ar Eog yr Iwerydd, Brithyll y Môr (sewin) a pheillwyr yn ogystal â rheoli pori ar forfa heli'r SoDdGA. Dywed y Cadeirydd Rhys Parry: "Dangosodd ein prosiect arobryn blaenorol ein bod yn gallu gweithredu ar y cyd ar raddfa tirwedd tuag at 2050 a bydd grantiau Adfer Dyfi yn ein galluogi i ymestyn ein camau gweithredu ymhellach. Diolch i bawb sy'n cymryd rhan, yn enwedig ein partneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru."

WWW.CROESOPENNAL.WALES ebost: pennalpartners@aol.com

# Newsletter 22


Cronfa Treftadaeth Heritage Fund


Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

Pennal 2050

## ADFER DYFI BEGINS

PUPILS from local schools will benefit from the project's educational strand. Here are a few of the great ideas for a project logo (these examples are from Ysgol Pennal) and will help in the design of a project logo. They learned about the creatures in the Dyfi as well as common trees that line the banks of the river and its tributaries.










**PARTNERIAETH Pennal Partnership, the farmer-led community group, has been successful in gaining two grants for a new project in the Dyfi Catchment. The project is funded by the Nature Networks Programme and is being delivered by the Heritage Fund on behalf of the Welsh Government.**

**Adfer Dyfi Restore aims to strengthen the resilience of Wales' protected land and marine sites over the next few years, building capacity to strengthen and upscale future delivery for nature and involve the community in that. The Partneriaeth Pennal efforts will improve the condition of and connectivity between sites for nature networks which are vital habitats to protect in order that species can thrive and expand.**

**The project will help the Dyfi Catchment to adapt to the effects of climate change with actions to help clean and cool the river and its tributaries with a particular focus on Atlantic Salmon, sea-trout (sewin) and pollinators as well as controlling grazing on the SSSI saltmarsh. Chair Rhys Parry says: "Our previous award-winning project showed that we are able to act collaboratively on a landscape scale towards 2050 and the Adfer Dyfi grants will enable us to further extend our actions. Thanks to all involved, particularly our partners including Natural Resources Wales."**

***Spring 2024***